cyngor ar bopeth

Helpu eich hun…
i reoli eich morgais

Os ydych chi'n poeni am dalu eich morgais, efallai fod yna gamau y gallwch chi eu cymryd i'w gwneud yn haws i reoli eich morgais. Mae'r daflen hon yn rhoi rhai syniadau i chi. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar y cysylltiadau defnyddiol ar y cefn.

Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd talu eich morgais, mae yna nifer o bethau y gallwch chi eu gwneud i'ch helpu i gadw ar y trywydd iawn ac i osgoi mynd i ddyledion.

Os ydych chi eisoes ar ei hôl hi gyda'ch taliadau, peidiwch ag anwybyddu llythyrau a gwnewch yn siŵr eich bod yn cael cyngor cyn gynted â phosibl. Gall cynghorydd yn eich canolfan Cyngor ar Bopeth leol eich helpu i ddod i gytundeb gyda'ch benthyciwr felly peidiwch â rhoi eich hun mewn perygl o golli eich cartref. Neu gallwch ffonio llinell gymorth Perchnogion Tai Shelter ar ✆ 0300 330 0515.

1 Cael trefn ar eich arian

Cyn i chi benderfynu beth yw'r cam gorau i chi, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth yw eich sefyllfa ariannol. Gwnewch restr o'ch holl incwm a'ch costau ac unrhyw ddyledion sydd gennych. Ydych chi'n gwario arian ar bethau y gallech fyw hebddynt yn hawdd?

Gallwch ddod o hyd i daflenni ffeithiau a thaflenni cyllideb yn **www.adviceguide.org.uk** neu gallwch ffonio'r Llinell Ddyled Genedlaethol ar ✆ 0808 808 4000. Mae gan wefan moneymadeclear yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol – **www.moneymadeclear.fsa.gov.uk** – daflenni gwybodaeth a chyfrifiannell cyllidebu.

Os oes angen help arnoch chi i roi trefn ar eich arian, ewch i'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol.

2 Ydych chi wedi eich yswirio?

Os ydych chi wedi colli eich swydd yn ddiweddar, neu wedi mynd yn rhy sâl i weithio, holwch i weld a oes gennych chi yswiriant gwarchod taliadau morgais – a elwir hefyd yn yswiriant damwain, gwaeledd a diweithdra. Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd gwneud hawliad ar eich yswiriant, gofynnwch am gyngor gan eich canolfan Cyngor ar Bopeth leol.

3 Oes modd i fudd-daliadau helpu gyda thaliadau morgais?

Gallwch gael help gyda chostau tai fel taliadau llog ar eich morgais os yw'ch incwm a'ch cynilion yn ddigon isel a bod gennych yr hawl i gael un o'r budd-daliadau a restrir isod. Holwch eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol i weld a allwch chi hawlio:

- cymhorthdal incwm os ydych chi'n ofalwr neu'n rhiant sengl gyda phlentyn dan 10 oed (ar gyfer hawliadau newydd)
- lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm os ydych chi'n chwilio am waith
- lwfans cyflogaeth a chymhorthdal sy'n gysylltiedig ag incwm os na allwch chi weithio oherwydd salwch neu anabledd
- credyd pensiwn os ydych chi'n 60 oed neu'n hŷn. Ffoniwch y llinell hawlio credyd pensiwn ar ✆ 0800 991 234.

Allwch chi ddim cael help am y 13 wythnos gyntaf ar ôl gwneud hawliad oni bai eich bod chi'n 60 oed neu'n hŷn.

Os ydych chi'n gymwys i gael help, gofynnwch i'ch benthyciwr a wnaiff dderbyn y taliadau hyn yn unig nes bydd eich sefyllfa'n gwella.

4 Allech chi gael bargen well?

Efallai y byddai'n well i chi newid i fargen morgais newydd. Gallwch gael mwy o wybodaeth ar wefan **www.moneymadeclear.fsa.gov.uk** yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol am y gwahanol fathau o forgeisi gan gynnwys cyfrifiannell morgais. Neu gallwch eu ffonio ar ✆ 0300 500 5000.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth fydd cyfanswm cost y morgais newydd, gan gynnwys unrhyw gostau a godir arnoch chi am newid morgais. Gofynnwch am gyngor annibynnol os nad ydych yn siŵr o unrhyw beth.

Allwch chi dorri costau pethau fel yswiriant adeilad, yswiriant cynnwys ac yswiriant gwarchod taliadau – ewch i **www.moneymadeclear.fsa.gov.uk** neu ffoniwch ✆ 0300 500 5000.

5 Siaradwch â'ch benthyciwr

Bydd y rhan fwyaf o fenthycwyr yn barod i drafod atebion eraill i'ch helpu drwy gyfnod anodd. Er enghraifft, efallai y gallwch wneud y canlynol:

- gwneud eich taliadau'n llai neu dalu dim ond y llog am gyfnod. Cofiwch y bydd yn rhaid i chi dalu'r taliadau'n llawn yn nes ymlaen
- ymestyn cyfnod eich morgais. Bydd hyn yn lleihau eich taliadau misol ond byddwch yn talu am gyfnod hirach felly bydd yn costio mwy.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall yn llwyr beth mae unrhyw newidiadau i'ch taliadau'n ei olygu a faint fydd yn ei gostio i chi.

Efallai y bydd dewisiadau eraill gan ddibynnu ar pa fath o forgais sydd gennych.

Gall cynghorydd ariannol profiadol drafod y rhain gyda chi – edrychwch ar y cysylltiadau defnyddiol ar dudalen 7.

6 Cynyddu eich incwm

Oes yna unrhyw ffordd y gallech chi gynyddu eich incwm i'ch helpu i dalu eich morgais? Dyma rai syniadau:

- Ceisiwch gael gwybod a allwch chi hawlio unrhyw fudd-daliadau neu gredydau treth.
- Cynigiwch ystafell ar rent i letywr. Cyn rhentu ystafell, edrychwch i weld a wnaiff yr incwm ychwanegol effeithio ar unrhyw fudd-daliadau rydych chi'n eu cael a gwnewch yn siŵr bod eich landlord neu'ch benthyciwr morgais yn cytuno.
- Holwch i weld a allech gael grant i'ch helpu gydag effeithlonrwydd ynni, costau tanwydd, inswleiddio'ch cartref.
- Gosodwch eich garej i rywun.

7 Lleihau eich costau hanfodol

Oes unrhyw beth y gallwch gwtogi arno nes bydd eich sefyllfa'n gwella? Bydd lleihau eich costau misol yn ei gwneud yn haws i chi reoli eich morgais.

Er enghraifft:

- gofynnwch i'ch cyngor lleol os oes gennych hawl i gael gostyngiad yn eich treth gyngor
- gofynnwch i'ch cyngor lleol os oes gennych chi'r hawl i gael prydau ysgol am ddim i'ch plentyn neu help gyda chost gwisg ysgol
- gofynnwch am help gyda chostau iechyd fel presgripsiynau a thriniaeth ddeintyddol
- arbedwch arian ar filiau'r cartref drwy newid i gyflenwyr tanwydd neu ddarparwyr yswiriant rhatach.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gynyddu eich incwm a lleihau eich costau yn **www.adviceguide.org.uk** neu codwch y daflen *Help yourself… to get more money* yn eich canolfan Cyngor ar Bopeth leol.

8 Help gan gynlluniau'r llywodraeth

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno cynlluniau i helpu perchnogion tai:

- Os yw'ch incwm chi wedi gostwng dros dro, mae'r cynllun cymorth morgais perchnogion tai yn gadael i chi ohirio talu rhywfaint o'ch taliadau morgais misol am hyd at ddwy flynedd. Os nad yw eich benthyciwr morgais yn rhan o'r cynllun cymorth morgais perchnogion tai, efallai y bydd yn cynnig cynllun tebyg.
- Yn Lloegr, os oes posibilrwydd y gallai eich cartref gael ei adfeddiannu, mae'r cynllun achub morgais yn gadael i chi werthu eich tŷ ond cewch barhau i fyw ynddo a thalu rhent. Mae cynlluniau tebyg ar gael yng Nghymru. Holwch eich cyngor lleol.
- Yn yr Alban, gallwch gael gwybod mwy am y Gronfa Gymorth i Berchnogion Tai yn y daflen – *Are you in danger of losing your home?* – ewch i **www.scotland.gov.uk** neu ewch i'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol.

Yn ogystal â chynlluniau'r llywodraeth, efallai y bydd cwmnïau preifat yn cynnig cynlluniau gwerthu a rhentu tebyg. Ystyriwch yn ofalus cyn cofrestru ar gyfer un o'r cynlluniau hyn gan y gallech fod ar eich colled. Gofynnwch am gyngor annibynnol gan un o'r mudiadau ar dudalen 7.

I gael gwybod mwy am gynlluniau'r llywodraeth, ewch i **http://mortgagehelp.direct.gov.uk** (dim www) neu ffoniwch linell gymorth Perchnogion Tai Shelter ar ✆ 0300 330 0515.

9 Gofynnwch am help

Os ydych chi'n dal i'w chael hi'n anodd ar ôl cymryd y camau uchod, peidiwch â rhoi'r ffidil yn y to, mae digon o bethau y gallwch chi eu gwneud o hyd. Dylech barhau i dalu'r hyn allwch chi ei fforddio a rhoi gwybod i'ch benthyciwr pam na allwch dalu'r cyfanswm.

Gallwch gael help gan gynghorydd yn eich canolfan Cyngor ar Bopeth leol gyda'r holl gamau yn y daflen hon.
I ddod o hyd i'ch canolfan Cyngor ar Bopeth agosaf ac i gael mwy o wybodaeth, gan gynnwys taflenni ffeithiau, ewch i **www.adviceguide.org.uk**.

10 o gysylltiadau defnyddiol (edrychwch ar gyfraddau galwadau cyn deialu)

Awdurdod Gwasanaethau Ariannol
www.moneymadeclear.fsa.gov.uk
dulliau rhyngweithiol ar gyfer cyllidebu a benthyca, gwybodaeth a thaflenni
Llinell Gymorth: ✆ 0300 500 5000

Cyllid a Thollau EM www.hmrc.gov.uk
treth incwm, yswiriant gwladol, credydau treth
Llinell gymorth credydau treth : ✆ 0845 302 1489

Cyngor Cyfreithiol Cymunedol www.communitylegaladvice.org.uk/cy/
i gael cymorth cyfreithiol am ddim, chwilio am gynghorwyr, cyfrifiannell cyngor cyfreithiol (yng Nghymru a Lloegr)
Llinell Gymorth: ✆ 0845 345 4345

Directgov www.direct.gov.uk/cy/index.htm
cynghorydd budd-daliadau ar-lein, sut mae hawlio budd-daliadau, dod o hyd i'ch cyngor lleol

Gwasanaeth Cwnsela Credyd Defnyddwyr www.cccs.co.uk
i gael cyngor cyfrinachol ar ddyled am ddim
Llinell Gymorth: ✆ 0800 138 1111

Llinell gymorth costau iechyd: ✆ 0845 850 1166

Llinell Gymorth Dyledion Cenedlaethol www.nationaldebtline.co.uk
llinell annibynnol sy'n rhoi cyngor ar ddyledion am ddim: ✆ 0808 808 4000

Llinell Gymorth Gwres yn y Cartref www.homeheathelpline.org.uk
cyngor ar effeithlonrwydd ynni a dyledion tanwydd:
Llinell Gymorth: ✆ 0800 336 699

National Debtline www.nationaldebtline.co.uk
llinell annibynnol sy'n rhoi cyngor ar ddyledion am ddim: ✆ 0808 808 4000

Payplan www.payplan.com
Cyngor ar ddyled am ddim: ✆ 0800 280 2816

Shelter www.shelter.org.uk
cyngor ar dai gan gynnwys dyledion a chamau cyfreithiol
Llinell Gymorth i Berchnogion Tai: ✆ 0300 330 0515
Llinell Gymorth Gyffredinol: ✆ 0845 075 5005 (Cymru), ✆ 0808 800 4444 (Lloegr a'r Alban)

Y Ganolfan Byd Gwaith www.jobcentreplus.gov.uk/jcpwelsh/
budd-daliadau i bobl o oed gweithio
Llinell hawlio budd-daliadau: ✆ 0800 012 1888

Ein hegwyddorion

Mae'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn darparu cyngor annibynnol, cyfrinachol a diduedd i bawb ynghylch eu hawliau a'u cyfrifoldebau, a hynny'n rhad ac am ddim.

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu.

Ein nodau

- Rhoi'r cyngor angenrheidiol i bobl ar gyfer y problemau y maent yn eu hwynebu.
- Gwella'r polisïau a'r arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl.

Cyhoeddwyd gan Citizens Advice
Myddelton House
115–123 Pentonville Road
London N1 9LZ

Ffôn: 020 7833 2181
www.adviceguide.org.uk
www.citizensadvice.org.uk

Ionawr 2010
Cyngor ar Bopeth yw enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth.
Rhif cofrestru'r elusen 279057